SESIWN ADOLYGU
(Rhwng Uned 49 a 50)

Ymarferion

Pwy yw'r tala / byrra yn y dosbarth Cymraeg?
Pa fwyd dych chi'n ei lico fwya?
Pa gerddoriaeth dych chi'n ei hoffi fwya?
Ydy eich brawd / chwaer yn henach / ifancach na chi?
Pa mor dda dych chi'n gallu canu?
Pa mor dda dych chi'n gallu coginio?

Darn Gwrando (Gwrandewch ar y ffeil sain, a rhowch yr wybodaeth briodol yn y grid):

Enwau'r plant						
Oed y plant						
Ysgolion						

Rhowch y ddeialog yma yn y drefn iawn:

A. Pam? Fydd neb yn gweld dy eisiau di.
A. Dwedodd y meddyg y dylet ti aros yn dy wely am wythnos.
A. Ddylet ti ddim bod ma's yn y tywydd yma.
A. A pheth arall - dw i ddim eisiau dal dy jyrms di.
B. Wir! Fyddwn i ddim wedi dod i mewn o gwbl 'swn i'n gwybod am y croeso yma!
B. Ond roedd rhaid i fi ddod i'r gwaith heddi.
B. Diolch yn fawr! Mae llawer o waith 'da fi …
B. Na, dw i'n gwybod. Ond dw i'n well o lawer.

Cymharwch y tri yma:
e.e

	Ben Nevis	***Kilimanjaro***	***Eferest***	
	Mae Ben Nevis yn uchel	*Mae K. yn uwch na Ben Nevis*	*Ond Eferest yw'r ucha.*	
1.	**Y Doors**	**Y Rolling Stones**	**Y Beatles**	*(poblogaidd)*
2.	**Seb Coe**	**Steve Ovett**	**Christie**	*(cyflym)*
3.	**arian**	**aur**	**platinwm**	(*drud)*
4.	**fi**	**chi**	**y tiwtor**	*(twp)*
5.	**Dydd Sul**	**Dydd Llun**	**Dydd Iau**	*(gwlyb)*
6.	**Domingo**	**Carreras**	**Pavarotti**	*(da)*

Gwaith Cartre
(Sesiwn Adolygu rhwng Uned 49 a 50)

Atebwch y cwestiynau yma:

1. Pa mor dda dych chi'n gallu nofio?

_____

2. Pa mor dda dych chi'n gallu siarad Cymraeg?

_____

3. Ydych chi'n henach / ifancach na'r tiwtor?

_____

4. Ydych chi'n dalach / fyrrach na'r tiwtor?

_____

5. Ydych chi mor gyfoethog â'r tiwtor?

_____

6. Pa raglenni dych chi'n eu lico orau?

_____

Pwyntiau i'w cofio:

1. Mae llawer o'r ansoddeiriau'n afreolaidd wrth eu defnyddio i gymharu (Many adjectives are irregular when used to compare):

a. Mae'r sŵn yn caledu - The sound hardens

d > t	*- rha**t**ach, cale**t**ach*
g > c	*- pwysi**c**ach*
b > p	*- gwly**p**ach*

b. nn > nh -

cynnes	*> cynhesach*
cynnar	*> cynharach*

c. Mae sŵn yr 'y' yn newid - The 'y' sound changes *cryf > cryfach*
sych > sychach